

Pethau Hudol

Mae pawb yn gwybod bod dim ffasiwn beth â **hud a lledrith**, yn dydyn?

Dyna beth roedd **Gwawr** yn credu cyn iddi ddod o hyd i **gorrach** mewn **bwth ffôn**...

Roedd hi'n ddydd Llun ac roedd **Gwawr** yn cerdded adref o'r ysgol pan basiodd hi'r **bwth ffôn**. Stopiodd yn stond wrth weld rhyw fath o **gorrach** wedi'i blygu ar ei gwrcwd yn y **bwth ffôn**.

Roedd y **gorrach** yn edrych yn ciwt ac yn ofnus ar yr un pryd!



Felly, yn dawel bach, aeth **Gwawr** agosach at y **corrach**.

Doedd **Gwawr** ddim eisiau ei ddychryn, felly cnociodd yn gwrtais ar y drws. Yn anffodus, fe *wnaeth* hyn ddychryn y creadur druan.

“Esgusodwch fi, ond a ydych chi’n defnyddio’r ffôn?” holodd **Gwawr** y **corrach**.

“Sori, nac ydw” oedd ei ateb.

Esboniodd y **corrach** ei fod yn cuddio rhag **deinosor** cas a chyflwynodd ei hun fel **Celyn**. Roedd ganddo **het fach smotiog**, a **gwisg las**.

Roedd **Gwawr** yn teimlo trueni drosto, felly ar ôl cael sgwrs fach dangosodd **Celyn** y ffordd i ogof y **deinosor** cas.

Unwaith i **Celyn** a **Gwawr** gyrraedd ogof y **deinosor** pesychodd **Gwawr** yn uchel i ddenu sylw’r **deinosor**.

“Beth ydych chi eisiau?” oedd ateb cas y **deinosor** o dywyllwch yr ogof.

“I ti stopio bod yn hen fwli cas!” gweiddodd **Gwawr**.

“Byth!” oedd yr ateb y tro hyn.

“Wel, tyrd allan i ni dy weld di ta!” gorchmynnodd **Gwawr**.

Felly, yn anfodlon, daeth y **deinosor** allan o’i ogof.

Doedd **Gwawr** ddim yn gallu stopio chwerthin!

Roedd y **deinosor** yn **bitw bach**!

Roedd ganddo glustiau anferth, **corff melyn bychan**, a **smotiau glas drosto**.

OND, roedd yn **gas** dros ben!

Roedd yn ddigywilydd ac yn anghwrtais. Felly, wnaethon nhw ddanfôn y **deinosor** i'r **blaned Mawrth** nes iddo ddysgu sut i fod yn garedig.

Ond, roedd **Celyn** a **Gwawr** yn meddwl y byddai'n aros ar y **blaned Mawrth** trwy gydol ei fywyd am ei fod yn **ddeinosor** mor gas.

Roedd **Celyn** a **Gwawr**, y ddau ffrind gorau newydd, yn hapus iawn eu bod nhw wedi cael gwared â'r hen fwli cas...

..ond cyn pen dim roedd e'n amser i **Celyn** a **Gwawr** ffarwelio.

Roedd e'n amser i **Celyn** fynd yn ôl adref i wlad y **tylwyth teg**.

Er hynny, bob deufis byddai **Celyn** yn dod i ymweld â **Gwawr** i chwarae o amgylch y **bwth ffôn**; ac arhosodd y ddau yn ffrindiau gorau am byth!

Awdur: Gwenllian Thomas

Darlunydd: Sioned Medi Evans